



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

Chwefror 2019

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru  
yn unol ag Adran 3C Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965  
fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 Deddf Cymru 2014

# Cynnwys

Cyflwyniad

Cwmpas yr adroddiad

Cynigion sydd wedi cael eu rhoi ar waith

Cynigion nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith

Penderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi cynigion ar waith

## **Cyflwyniad**

Rwyf yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n ymwneud â gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith. Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol i'w gyflwyno ar ôl pasio Deddf Cymru 2014.

Gwnaeth y Ddeddf ddiwygio Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru wedi'u rhoi ar waith gan Weinidogion Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 17 Chwefror 2018 a 15 Chwefror 2019.

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am nifer o feysydd sy'n ymwneud â chynigion Comisiwn y Gyfraith. Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud dros y deuddeg mis diwethaf, gan gynnwys cyflwyno Bil Deddfwriaeth (Cymru) sy'n bwrw ymlaen â chynigion a gynhwysir yn yr adroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru. Fis Rhagfyr diwethaf cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol 'Cyfraith Cynllunio yng Nghymru' ac rydym yn ystyried yr argymhellion yn ofalus.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am brosiectau Comisiwn y Gyfraith yn awr ac yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r prosiect ynghylch diwygio lesddaliadol a chyfunddaliadol. Rydym hefyd wedi cytuno â Chomisiwn y Gyfraith ar brosiect i Gymru yn unig i ystyried y Gyfraith sy'n ymwneud â Thribiwnlysoedd datganoledig i Gymru, a fydd yn dechrau yn nes ymlaen eleni.

Mae'r cynnydd a'r gweithgarwch a nodir yn yr adroddiad hwn yn dangos ymhellach y pwys y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi ar gynigion Comisiwn y Gyfraith.

**Mark Drakeford AC**  
**Prif Weinidog Cymru**

**15 Chwefror 2019**

## Cwmpas yr adroddiad

1. Mae Adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 o Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith wedi'u gweithredu gan Lywodraeth Cymru.
2. Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 17 Chwefror 2018 a 15 Chwefror 2019.
3. Fel y pennir gan y Ddeddf, mae'r adroddiad yn cwmpasu cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd wedi cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, a'r cynigion sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd heb gael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer rhoi cynigion ar waith a phenderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi cynigion ar waith.
4. Mae'r adroddiad yn cwmpasu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn unig i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru.

## **Cynigion sydd wedi cael eu rhoi ar waith**

5. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r gwaith o roi cynigion Comisiwn y Gyfraith ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## **Cynigion nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith**

### **Ffurf a Hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru: Prosiect cynghori**

6. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar ffurf, cyflwyniad a hygyrchedd y gyfraith sy'n ymwneud â Chymru ar 29 Mehefin 2016. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru sy'n ceisio sicrhau gwelliannau yn yr agweddau hynny ar y gyfraith bresennol a deddfwriaeth yn y dyfodol yng Nghymru.
7. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb terfynol ar 19 Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad yn darparu glasbrint defnyddiol ar gyfer y ffordd y gall Llywodraeth Cymru ac eraill weithredu i sicrhau bod cyfreithiau Cymru'n fwy hygyrch. Derbyniodd Llywodraeth Cymru, neu dderbyn mewn egwyddor, yr holl argymhellion ar gyfer y llywodraeth heblaw un ohonynt. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau rhoi'r argymhellion hyn ar waith, yn enwedig trwy gyflwyno Bil Deddfwriaeth (Cymru) sydd wedi cyrraedd Cyfnod 1 yn y Cynulliad Cenedlaethol erbyn hyn.

### **Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid**

8. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb terfynol i'r adroddiad a noddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith a'r argymhellion (Mawrth 2017) i ddiwygio'r gweithdrefnau cyfreithiol a roddwyd yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gyfer awdurdodi gofal a threfniadau triniaeth sy'n gyfystyr ag amddifadu rhyddid person. Dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn cytuno'n fras â'r Model Gwarchod Rhyddid newydd (sy'n disodli'r trefniadau diogelu presennol wrth amddifadu o ryddid (DoLS)) a gynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ac y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth pan fyddai amser seneddol yn caniatáu.
9. Cyhoeddodd y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol ei adroddiad hefyd: *The Right to Freedom and Safety: Reform of the Deprivation of Liberty Safeguards* ym Mehefin 2018, yn galw ar i'r ddeddfwriaeth bresennol gael ei diwygio fel mater o frys.
10. Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil Galluedd Meddyliol (Diwygio) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 3 Gorffennaf 2018. Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn seiliedig yn fras ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith gyda rhai hepgoriadau nodedig a darpariaethau newydd. Mae pwnc Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn bwnc a gedwir o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Casglodd asesiad o gymhwysedd deddfwriaethol y Bil fel y'i cyflwynwyd nad oedd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

11. Ers i'r Bil gael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi, mae diwygiadau lluosog wedi cael eu gwneud, gan gynnwys rhoi swyddogaeth newydd i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau penodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu pob un o'r diwygiadau perthnasol wrth i'r Bil symud ymlaen a chasglu nad ydynt yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Bydd y broses hon yn parhau nes i hynt y Bil gael ei gwblhau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n gweithio gydag adrannau perthnasol yn Llywodraeth y DU i sicrhau bod y Bil yn cyd-fynd â deddfwriaeth berthnasol yng Nghymru, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
12. Disgwylir i'r Bil Galluedd Meddyliol (Diwygio) gael y Cydsyniad Brenhinol erbyn y gwanwyn 2019. Dilynir hyn gan gyfnod o 12 mis i ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol a'r cod ymarfer statudol, a chyfnod gweithredu trosiannol pellach o 12 mis (hyd at y gwanwyn 2021).
13. Gallai'r dyfarniad a ddisgwylir yn achos gwrandawriad y Goruchaf Lys o achos sy'n ymwneud â phlentyn D, (UKSC 2018/0064) fod yn berthnasol hefyd i rai o ddarpariaethau'r Bil mewn perthynas â phobl 16 a 17 oed.
14. Comisiynodd Llywodraeth y DU hefyd Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn yr hydref 2017. Cafodd yr Adolygiad gyloch gwaith wedyn i ystyried y rhyngwyneb rhwng y Ddeddf Galluedd Meddyliol/DoLS a Deddf Iechyd Meddwl 1983, fel y'i cynigiwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith. Cyhoeddwyd adolygiad terfynol yr Adolygiad Annibynnol yn Rhagfyr 2018, gan wneud 154 o argymhellion, y mae llawer ohonynt yn galw am newid yn y ddeddfwriaeth. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan y bydd yn rhoi ymateb ffurfiol i argymhellion yr adolygiad yn y flwyddyn newydd cyn cyflwyno deddfwriaeth newydd. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried yn llawn goblygiadau'r argymhellion i Gymru fel y maent yn gymwys i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a Deddf Iechyd Meddwl 1983.

## **Y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru**

15. Mae'r prosiect yn adolygu'r gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru. Mae'n darparu argymhellion ar symleiddio a chydgrynhoi deddfwriaeth gynllunio, er mwyn disodli ac integreiddio deddfwriaeth sylfaenol bresennol i ffurfio Deddf neu Ddeddfau wedi'u cydgrynhoi newydd fel rhan o God Cynllunio i Gymru.
16. Gan fanteisio ar ymatebion dau ymarfer ymgynghori ac adolygiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion berthnasol, pennodd Comisiwn y Gyfraith fanylion terfynol ei argymhellion trwy gyhoeddi ei adroddiad terfynol 'Cyfraith Cynllunio yng Nghymru' ar 3 Rhagfyr 2018. Mae'r adroddiad ar gael yn:

<https://www.lawcom.gov.uk/project/cyfraith-cynllunio-yng-nghymru/>

17. Mae ystyriaeth fanwl bellach yn cael ei rhoi i ryw 190 o argymhellion a nodir yn yr adroddiad a'r dystiolaeth ategol ar gyfer diwygiadau i symleiddio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth hon. Yn unol â'r protocol y cytunwyd arno â Chomisiwn y Gyfraith, caiff ymateb interim gan y Llywodraeth i'r adroddiad ei ddarparu cyn pen 6 mis i'w gyhoeddi (cyn 2 Mehefin 2019), gydag ymateb manwl i'w ddarparu cyn pen 12 mis (cyn 3 Rhagfyr 2019).



## **Prosiectau Comisiwn y Gyfraith yn awr ac yn y dyfodol.**

### **13eg Raglen o Ddiwygio'r Gyfraith – tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru**

18. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei 13eg Raglen o Ddiwygio'r Gyfraith ar 14 Rhagfyr 2017. Adeg cyhoeddi, roedd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod i geisio nodi prosiect diwygio'r gyfraith ar gyfer Cymru yn unig, ond ar yr adeg honno nid oedd wedi penderfynu ar fater addas ar gyfer prosiect o'r fath. Er hynny, mae'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ers hynny mai'r gyfraith sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru fydd testun prosiect i Gymru'n unig.
19. Mae rheolau a gweithdrefnau presennol y gwahanol dribiwnlysoedd datganoledig sydd ar waith yng Nghymru yn gymhleth ac yn anghyson, gan eu bod wedi datblygu fesul dipyn o dan ystod eang o wahanol ddeddfwriaeth. Datblygwyd llawer o'r ddeddfwriaeth hon cyn datganoli, a hefyd cyn cydnabod bod tribiwnlysoedd yn arfer swyddogaeth farnwrol y wladwriaeth, yn hytrach na swyddogaeth weithredol. Ar ben hynny, nid yw'r ddeddfwriaeth yn cymryd i ystyriaeth swyddogaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymru 2017. Mae'r Comisiwn wedi cytuno felly y bydd yn cynnal prosiect i ddiwygio'r gyfraith yn y maes hwn, a'i fod yn disgwyl i hyn ddechrau ar ddiwedd 2019. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

[https://beta.llyw.cymru/node/6333?\\_ga=2.36986726.795705693.1549887401-1726422055.1547721745](https://beta.llyw.cymru/node/6333?_ga=2.36986726.795705693.1549887401-1726422055.1547721745)

### **Diwygio lesddaliadol a chyfundaliadol.**

20. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Chomisiwn y Gyfraith ar ei brosiect ynghylch diwygio lesddaliadol a cyfundaliadol. Bydd y prosiect yn edrych i ddechrau ar dri maes allweddol:
- Rhyddfrenio lesddaliadau, gan gynnwys estyn prydles a phrynu rhydd-ddaliad eiddo ar brydles. Bydd hefyd yn ystyried sut y gellir gwneud y prosesau yn haws, yn gyflymach ac yn fwy cost-effeithiol;
  - Cyfundaliad, sy'n darparu ffurf amgen o berchnogaeth i lesddaliad preswyl. Bydd y Comisiwn yn adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfundaliad er mwyn gwella hyder y farchnad ac ymarferoldeb;
  - Yr Hawl i Reoli a gyflwynwyd i roi rheolaeth i lesddeiliaid dros reoli eu hadeiladau. Bydd y Comisiwn yn adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn gwneud y weithdrefn yn symlach, yn gyflymach ac yn fwy hyblyg.

21. Mae'r gwaith hwn yn golygu elfen sylweddol o ymgysylltu ac ymgynghori â randdeiliaid. Daeth ymgynghoriad y Comisiwn ar ddiwygio rhyddfrenio i ben yn Ionawr 2019, ac fe ddaw ei ymgynghoriadau presennol ar gyfundaliad a'r hawl i reoli i ben ym mis Mawrth ac Ebrill 2019 yn eu trefn.

22. Mae gwybodaeth bellach ar brosiect Comisiwn y Gyfraith i'w chael yn:

<https://www.lawcom.gov.uk/project/residential-leasehold-and-commonhold/>

## **Penderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi cynigion ar waith**

23. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau i beidio â rhoi adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.